Caring Together
Western Bay
Health and Social Care Programme
Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorllewin
Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Bae'r Gorllewin

21 Medi 2017
14:00 – 16:00

Ystafelloedd Pwyllgor A a B,

Canolfan Ddinesig Castell-nedd SA11 3QZ

Yn bresennol

Enw	Sefydliad a Dynodiad	Blaenlythrennau
Y Cynghorydd Rob Stewart (Cadeirydd)	Cyngor Abertawe, Arweinydd	RS
Yr Athro Andrew Davies (Is-gadeirydd)	BI PABM, Cadeirydd	AD
Joanne Abbott-Davies	BI PABM, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phartneriaethau	JAD
Maggie Berry	BI PABM (aelod nad yw'n swyddog)	MB
Susan Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles	SC
Darren Mepham	CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Prif Weithredwr	DM
Y Cynghorydd Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd	PR
Y Cynghorydd Mark Child	Cyngor Abertawe, Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles	MC
Y Cynghorydd Clive Lloyd	Cyngor Abertawe, Dirprwy Arweinydd	CL
Phil Roberts	Cyngor Abertawe, Prif Weithredwr	PR
Dave Howes	Cyngor Abertawe, Prif Swyddog y Gwasanaethau	DH
Linda Jaggers	Cynrychiolydd Gofalwyr	LJ
Emma Tweed	Trydydd Sector (cenedlaethol), Prif Swyddog Gweithredol Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin	ETw
Carwyn Tywyn	Trydydd Sector (lleol), Mencap Cymru	CT
Rosita Wilkins	Defnyddiwr Gwasanaeth/Cynrychiolydd Dinasyddion	RW
Adele Rose-Morgan	Defnyddiwr Gwasanaeth/Cynrychiolydd Dinasyddion	AR-M
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	MM
Debbie Smith	Cyngor Abertawe (Gwasanaethau cyfreithiol)	DS
Yn bresennol		
Kelly Gillings	Rheolwr Gweithredu Contractio a Chaffael Bae'r Gorllewin	KG
Elaine Tanner	Rheolwr Gweithredu Gwasanaethau Cymunedol Bae'r Gorllewin	ETa
Vicky Warner - Eitem 5 ar yr Agenda	Arweinydd Gwasanaethau Cymunedol Bae'r Gorllewin a Chyfarwyddwr Nyrsio, Uned Cyflwyno Gofal Sylfaenol a Chymunedol BI PABM.	VW

Dr Stephen Boxford - Eitem 5 ar yr Agenda	Cordis Bright	SB
Matt Irani – Eitem 5 ar yr Agenda	Cordis Bright	MI
Jan Thomas – Eitem 6 ar yr Agenda	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu BI PABM	JT
Rebecca Carlton - Eitem 6 ar yr Agenda	Cyfarwyddwr Gwasanaethau, Ysbyty Treforys	RC

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Alex Howells	BI PABM, Prif Weithredwr Dros Dro	AH
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM, Cyfarwyddwr Strategaeth a Phartneriaethau	SH-G
Y Cynghorydd Huw David	CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Arweinydd	HDa
Y Cynghorydd Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar	PW
Y Cynghorydd Dhanisha Patel	CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol	DP
Y Cynghorydd Rob Jones	CBS Castell-nedd Port Talbot, Arweinydd	RJ
Y Cynghorydd Alan Lockyer	CBS Castell-nedd Port Talbot	AL
Steve Phillips	CBS Castell-nedd Port Talbot, Prif Weithredwr	SP
Nick Jarman	CBS Castell-nedd Port Talbot, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai	NJ
Gaynor Richards	Trydydd Sector (CGG), Prif Weithredwr, CGG Castell-nedd Port Talbot	GR
Melanie Minty	Sector Annibynnol, Fforwm Gofal Cymru	MM
Sara Harvey	Cyfarwyddwr Rhaglen Bae'r Gorllewin	SH
Louise Fraser-Cole	Gweinyddwr Rhaglen Bae'r Gorllewin	LF-C

Cyf.	Eitem	Camau Gweithredu
1	**Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	
	Croesawodd RS bawb i'r cyfarfod.	
1.1	Rhoddwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel a nodir uchod; fodd bynnag, mae RS yn bryderus am ymddiheuriadau a chyfarfodydd yn gwrthdaro a gofynnodd i bawb sicrhau bod eu dyddiaduron yn cydweddu.	**Aelodau i sicrhau bod eu dyddiaduron yn cydlynu**
	O ganlyniad i'r ymddiheuriadau, gofynnodd RS i DS a oedd gan y grŵp gworwm; cadarnhaodd DS y gallai'r cyfarfod fynd yn ei flaen oherwydd bod pob sefydliad partner wedi'i gynrychioli ac y gellid gwneud penderfyniadau.	
1.2	**PENDERFYNIAD:** Cyfetholwyd Adele-Rose-Morgan fel cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth a dirprwy ar gyfer Rosita Wilkins. Bydd AR-M yn mynd i gyfarfodydd pan fydd RW yn absennol.	
2	**Datganiadau o Fuddiant**	
	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	
3	**Cofnodion**	
3.1	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir	
4	**Materion yn Codi a Chofnod Gweithredu**	

Cyf.	Eitem	Camau Gweithredu
4.1 4.2 4.3	Cafwyd trafodaeth am gynnal cyfarfodydd y BPRH yn gyhoeddus a chyflwynodd DS grynodeb. Nid oes hawl statudol ar gyfer mynediad cyhoeddus; fodd bynnag nid yw hyn yn golygu na ellir ei ystyried. Mae cyfranogiad gan gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar y bwrdd sy'n gallu cynrychioli llais y cyhoedd. Gofynnodd RS i gyfarfodydd cyhoeddus gael eu hystyried fel pwynt egwyddor; gellid dynodi cyfnod o amser ar gyfer sesiwn holi ac ateb i'r cyhoedd gydag aelodau o'r BPRh. Yna, gofynnir i'r cyhoedd adael y cyfarfod er mwyn gallu trafod gweddill y materion yn gyfrinachol. Bydd angen ystyried hygyrchedd lleoliadau, gofynion cyfieithu, amserau a chyfnodau rhybudd ar gyfer cyfarfodydd, yn ogystal â phwy fydd yn gwasanaethu'r cyfarfodydd. Nid oes digon o le yn Swyddfa Rhaglen Bae'r Gorllewin, felly byddai'n rhaid iddynt gael eu gwasanaethu drwy adnoddau eraill, e.e. Gwasanaethau Democrataidd ar draws y rhanbarth. Trafodir y cynnig o sut y gallai'r bwrdd weithredu'n gyhoeddus yng nghyfarfod nesaf y BPRh.	**Trafodir y cynnig o sut y gallai'r bwrdd weithredu'n gyhoeddus yng nghyfarfod nesaf y BPRh.**
4.4 4.5 4.6	**Cyllidebau wedi'u cronni** Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cyllideb gyfun ranbarthol ar gyfer cartrefi gofal erbyn mis Mawrth 2018. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Fae'r Gorllewin ar hyn o bryd ac mae angen i waith fynd yn ei flaen ar y sail honno, er y cynllunnir am newidiadau posib i'r ffiniau ar yr un pryd. Dywedodd DH fod y model gorau posib ar gyfer Gwasanaethau Gofal Canolraddol eisoes yn gweithio gyda chyllidebau cyfun. Er nad ydynt yn rhanbarthol fel a ddisgrifir gan LlC, dylem barhau yn y modd blaengar hwn a gwneud y peth iawn ar gyfer gwasanaethau. Dywedodd AD nad oedd eglurdeb eto o ran manteision cyllideb gyfun ac mae dadl enfawr ledled Cymru o hyd. Cytunwyd i barhau i weithio; fodd bynnag, bydd AD yn codi'r mater gyda gweinidogion am fwy o eglurdeb.	**Cytunwyd i barhau i weithio; fodd bynnag, bydd AD yn codi'r mater gyda gweinidogion am fwy o eglurdeb.**
5	**Gwerthuso Rhaglen Trawsnewid Gofal Canolraddol Bae'r Gorllewin, Cordis Bright**	

Cyf.	Eitem	Camau Gweithredu
5.1	Cyflwynodd Dr Stephen Boxford a Matt Irani o Cordis Bright, ar y cyd â Vicky Warner o BI PABM, ganfyddiadau ac argymhellion allweddol gwerthusiad annibynnol hydredol o Ofal Canolraddol.	
5.2	Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad yw bod angen cryfhau anghenion y farchnad gofal cartref, a sefydlwyd grŵp tasg a gorffen yn ddiweddar er mwyn mynd i'r afael â hyn. Dywedodd SC fod problem barhaus gyda chyflogi pobl i weithio yn y sector hwn, er bod BG yn rhoi mesurau ar waith er mwyn mynd i'r afael â hyn.	
5.3	Dywedodd AD fod Aelodau'r Cynulliad yn disgwyl i gydweithio ddigwydd yn gyflym, ond ei fod yn	
5.4	cymryd amser. Mae gofyniad i sicrhau bod angen casglu data'n gyson er mwyn datblygu a llunio gwasanaethau'n barhaol.	
5.5	Dywedodd VW fod angen i ni adolygu data ar lefel fach iawn i weld pa wasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth a lle i fuddsoddi.	
5.6	Er na leihawyd costau gwasanaethau, mae'r gwerthusiad yn dangos na chafwyd cynnydd o ran gwario fel a amlinellir yn yr ymagwedd 'gwneud dim' yn y gwerthusiad gwaelodlin pe na bai'r gwasanaethau hyn ar waith. Nododd DH fod angen rhannu'r adroddiad â LlC oherwydd ei fod yn cynnwys tystiolaeth mai'r ymagwedd yr ydym wedi'i chymryd yw'r un gywir; dylid cymeradwyo staff ac mae VW, fel un o arweinwyr BI PABM, wedi bod yn werthfawr iawn. Mae hi'n ymddeol ym mis Hydref ac rydym yn ddiolchgar iddi hi am ei holl waith.	**Dylid rhannu Gwerthusiad Gofal Canolraddol Cordis Bright â Llywodraeth Cymru.**
6	**Cynllun Cydnerthu Bae'r Gorllewin ar gyfer y Gaeaf**	
6.1	Rhoddodd JT gyflwyniad am y cynlluniau a oedd yn nodi ein bod ni'n wynebu gaeaf mwy heriol oherwydd disgwylir achosion sylweddol o ffliw. Diolchodd AD i JT a nododd fod angen atgoffa staff rheng flaen allweddol i gael y brechiad ffliw.	
7	**Diwygio Llywodraeth Leol a Phen-y-bont ar Ogwr/Cwm Taf: Effaith ar weithio rhanbarthol Bae'r Gorllewin**	
7.1	Cyfeiriad at 4.2 - Trafodwyd hyn mewn perthynas â'r gronfa a rennir ar gyfer cartrefi gofal wrth adolygu'r cofnod gweithredu.	
8	**Y Gronfa Gofal Integredig**	

Cyf.	Eitem	Camau Gweithredu
8.1 8.2	**PENDERFYNIAD: Cadarnhawyd** cynigion ar gyfer y cynllun grantiau mawr. Nodwyd y broses ar gyfer y cynllun grantiau bach. Cadarnhaodd JAD yr aseswyd y cynllun grantiau bach ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig a'r grantiau Newid er Gwell ar y cyd eleni, a dyrannwyd cynlluniau i'r cronfeydd mwyaf priodol. Roedd hyn yn llwyddiannus ac yn llai dryslyd i ymgeiswyr. **PENDERFYNIAD:** Nodwyd bod angen cadarnhau y ffurflenni monitro drwy e-bost ym mis Hydref ar gyfer mis Gorffennaf - mis Medi.	
8.3	Mae risg na fydd yr holl gyllid yn cael ei wario erbyn diwedd mis Mawrth 2018; sgoriwyd pob prosiect dan y system COG a bydd unrhyw oedi wrth wario yn amodol ar fonitro ac adrodd mwy cyson. Yna, caiff ei ehangu i gynnwys y Bwrdd Prosiect a'r Tîm Rhaglen perthnasol er mwyn ystyried ailddyrannu unrhyw danwariant cyn gynted â phosib.	
9	**Adroddiad Blynyddol Drafft Gwerthfawrogi Gofalwyr Bae'r Gorllewin**	
9.1	**PENDERFYNIAD:** Trafododd SC y papur atodedig a **chadarnhawyd** y cynigion a'r papur.	
10	**Adborth gan Banel Rhanbarthol y Dinasyddion**	
  10.1 10.2 10.3 10.4 10.5	Rhoddodd RW adborth am y prif bwyntiau: Mae trafodaethau parhaus am recriwtio cynrychiolwyr a sylwedyddion ychwanegol. Gofynnir i'r panel ymwneud yn fwy â'r broses ar gyfer penderfynu blaenoriaethau. Nododd MC ei fod yn hanfodol ein bod ni'n cynnwys cyfraniadau dinasyddion; fodd bynnag, mae angen adolygu a sefydlu'r trefniadau mwyaf effeithiol. SC: Mae angen ysgrifennu'r adroddiadau a adolygir gan Banel Rhanbarthol y Dinasyddion mewn fformat priodol er mwyn cynnwys dinasyddion. Mae gwir angen oedi i fyfyrio ar gyfarfodydd panel y flwyddyn ddiwethaf, y canlyniadau arfaethedig, a ydynt yn cael eu bodloni a chytuno ar y ffordd fwyaf priodol o symud ymlaen. Dywedodd JAD fod dulliau eraill ar waith i gynnwys barn dinasyddion a dylai'r rhain fod yn rhan o'n hamser myfyrio.	
11	**Adroddiad Cynnydd Rhaglen BG**	

11.1	**Y Diweddaraf am y Gwasanaethau Cymunedol** Adroddiad er gwybodaeth	

Cyf.	Eitem	Camau Gweithredu
	Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	
11.2	Darparodd JAD y diweddaraf am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) rhanbarthol. Yn yr adroddiad, nodwyd y byddai ail fersiwn y cynnig ar gyfer GAI yn cael ei dosbarthu fel bod y BPRh yn gwneud penderfyniad, ond bu oedi.	
11.3	Mae cyfarwyddwyr yn awyddus bod y trydydd sector yn darparu'r 4 gweithiwr cefnogi, sy'n cefnogi cryfhau gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector. Fodd bynnag, cadarnhaodd Cydlynydd Cenedlaethol ASA (CLILC) y byddai'r cynnig yn cael ei wrthod oni bai fod yr awdurdodau lleol yn cynnig y swyddi. Cododd SC y mater hwn gydag uwch-swyddog yn LlC ac mae'n aros am eglurhad pellach.	
11.4	Awgrymodd DH ddirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau ar y cynnig ar gyfer GAI i JAD, NJ a SC i arbed unrhyw oedi pellach, a **chytunwyd ar hyn.**	**Cytunwyd i ddirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau ar y cynnig terfynol ar gyfer GAI i SC, DH, NJ a JAD.**
11.5	**Contractio a Chaffael** Adroddiad er gwybodaeth	
11.6	**CCISC** Adroddiad er gwybodaeth Croesawodd RS y cynnydd a wnaed yn y prosiect hwn.	**RS i siarad â'r Cyng. Rob Jones ynghylch cyflwyno'r prosiect yn CNPT**
11.7	**Partneriaeth Gofalwyr BI PABM** Adroddiad er gwybodaeth Dywedodd SC fod gofalwyr ifanc wedi galw'r bartneriaeth i gyfrif yn nigwyddiad gofalwyr ifanc diweddar. Dywedodd DM fod y cyllid trawsnewidiol yn dod i ben ym mis Mawrth 2018 ac mae disgwyliadau yn sylweddol o ran parhad; gellid gwneud cais am gyllid Cronfa Gofal Canolraddol. Gofynnodd LJ am eglurhad ar dabl 4 o ran yr asesiad gofalwr oherwydd bod yr ymatebion i'r arolwg yn nodi bod mwy o bobl yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiadau canlynol: *'Rwyf wedi cael Asesiad Gofalwr ac rwy'n teimlo'n bod hwn wedi nodi fy anghenion ac wedi mynd i'r afael â nhw.'*	**Liz Griffiths Hughes i egluro unrhyw gamau gweithredu**
12	**U.F.A.**	

12.1	Gofynnodd RS am enwebiadau cynghorwyr ar gyfer y Bwrdd Mabwysiadu Cenedlaethol. Cynigiwyd Phil White (CBSPBO) ac Alan Lockyer (CBSCNPT). Fodd bynnag, oherwydd nad oeddent yn y cyfarfod, gofynnodd RS i'r enwebiad gael ei gadarnhau drwy e-bost.	**SH i gymryd camau dilynol a nodi un enwebiad**

Cyf.	Eitem	Camau Gweithredu
12.2	Ar hyn o bryd, nid oes gan Grŵp Iechyd a Thai Bl PABM fodd o fynd â gwybodaeth/materion ymhellach. Cynhelir gweithdai'n fuan am dechnoleg gynorthwyol yn y cartref, iechyd a digartrefedd. Dywedodd DH mai JAD yw Arweinydd y Grŵp Iechyd a Thai ac mai Rachel Evans yw Arweinydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Cefnogi Pobl.	**Bydd SH yn sicrhau y gwahoddir Phil Roberts i gyfarfod â JAD ac RE**
12.3	Dosbarthodd ET Gyfeiriadur Gwasanaethau Gofal a Chefnogaeth newydd a luniwyd dan nawdd Bae'r Gorllewin (fel rhan o wasanaeth IAA).	
	Daeth y cyfarfod i ben am 16:00.	
	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Rhagfyr, rhwng 10am a 12pm yn yr Ystafell Bwrdd, Pencadlys PABM, Baglan	